Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# Cylchlythyr yr Haf '24





**Dyma rifyn yr haf o Gylchlythyr Tymhorol Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) ar gyfer 2024, ac rwy'n gobeithio eich bod yn ddiogel ac yn iach wrth i'r ohebiaeth hon eich cyrraedd.**

**Wrth i ni edrych yn ôl ar y chwarter diwethaf, rydym yn falch o weld twf, optimistiaeth a gweithgaredd parhaus ar draws yr economi ranbarthol yn Ne-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, mae gwrthdaro byd-eang yn parhau i fod yn bryder i bob un ohonom, yn ddyngarol ac yn economaidd.**

Mae'n ymddangos bod busnesau yn y rhanbarth yn dal i wynebu heriau recriwtio staff cymwys ac mae mynd i'r afael â bylchau sgiliau a phrinder sgiliau yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth wrth i ni symud drwy'r haf ac i'r hydref.

Rydym yn falch iawn o weld y cynnydd a wnaed gyda'n Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 'Ffyniant trwy Bartneriaeth', a lansiwyd 18 mis yn ôl.  Rydym wrthi'n gweithio drwy ein Bwrdd a grwpiau clwstwr dan arweiniad cyflogwyr i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd gan y diwydiant.

Pwrpas yr ohebiaeth hon yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y datblygiadau diweddaraf sy'n gysylltiedig â sgiliau o fewn PSPRC a gobeithiwn y bydd y cynnwys yn addysgiadol.

Yn olaf, hoffem ddymuno haf dymunol i chi gan y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau a'r tîm rheoli prosiectau.

**Leigh Hughes,**
**Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC**

# Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2024

**Cynhaliwyd Gwobrau Prentisiaethau Cymru (AAC) ar 22 Mawrth 2024 gan wobrwyo unigolion, darparwyr dysgu a chyflogwyr a ragorodd wrth gyfrannu at ddatblygu rhaglenni Cyflogadwyedd a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru ledled Cymru.**

Trefnodd Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC) y digwyddiad hynod lwyddiannus a gynhaliwyd yn ICC Cymru.

Roedd y gwobrau'n gyfle gwych i arddangos a dathlu llwyddiannau'r rhai sydd wedi rhagori ar y disgwyliadau, dangos ymagwedd ddynamig tuag at hyfforddiant, a dangos menter i wella a datblygu sgiliau ar gyfer economi Cymru.

Ymhlith y categorïau gwobrwyo roedd Prentis Sylfaen y Flwyddyn, Prentis y Flwyddyn, Prentis Uwch y Flwyddyn, Talent Yfory, Cyflogwr Bach i Ganolig y Flwyddyn (1-249 o weithwyr) a Chyflogwr Mawr a Macro y Flwyddyn.

**Hoffai PSPRC longyfarch yr holl gystadleuwyr yn y rownd derfynol a thynnu sylw at lwyddiant yr enillwyr canlynol o Dde-ddwyrain Cymru:**

- **Gwynfor Harley Jones, Prentis Sylfaen y Flwyddyn gyda Welcome to our Woods (WTOW)**
- **Laura Chapman, Prentis y Flwyddyn gyda MotoNovo Finance**
- **Trafnidiaeth Cymru, Cyflogwr Mawr y Flwyddyn**
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyflogwr Macro y Flwyddyn**
- **Anne Reardon-James, Ymarferydd DSW y Flwyddyn gyda Panda Education and Training**

Am fwy o wybodaeth a manylion llawn yr enillwyr a'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol ewch i **https://www.llyw.cymru/gwobrau-prentisiaethau-cymru/enillwyr-a-theilyngwyr/gwobrau-2024**



## Tu ôl i'r llenni: Pen-y-bont Greadigol 2024

**Gwnaeth digwyddiad Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont Greadigol, gysylltu mynychwyr â'r sector creadigol, gan ganiatáu iddynt archwilio cyfleoedd, profi'r diwydiant, mynegi eu diddordebau, ac ehangu eu rhwydwaith creadigol.**

Ym mis Ebrill, cynhaliwyd y digwyddiad Pen-y-bont Greadigol: Tu ôl i'r Llenni yn y Neuadd Bowlio, Canolfan Bywyd Halo, gyda llwyddiant mawr.

Denodd y digwyddiad gynulleidfa fawr o tua 500 o artistiaid, perfformwyr a meddyliau creadigol talentog o Ben-y-bont ar Ogwr a thu hwnt. Roedd y digwyddiad yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys arddangosfeydd celfyddydau gweledol, cerddoriaeth fyw, gweithdai a sesiynau dosbarth meistr, a sgyrsiau a thrafodaethau ar gelf, creadigrwydd, a thirwedd ddiwylliannol Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y digwyddiad nid yn unig yn arddangos talent artistig ond hefyd yn llwyfan ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ac ysgogi economaidd, gan ddenu ymwelwyr o'r rhanbarth a rhoi hwb i fusnesau lleol.

Mae llwyddiant Pen-y-bont Greadigol wedi paratoi'r ffordd ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol, gyda'r trefnwyr yn bwriadu ehangu'r rhaglen a chynnig ystod ehangach o brofiadau i gyfranogwyr.

Os gwnaethoch chi golli'r digwyddiad, cadwch olwg ar y wefan ***It's My Shout*** a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr i gael diweddariadau am y digwyddiad nesaf.

Os hoffech ddysgu mwy am sut y gall Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr eich helpu i ddod o hyd i swydd yn y diwydiant creadigol neu sectorau eraill, cysylltwch â'r tîm ar 01656 815317 neu e-bostiwch employability@bridgend.gov.uk.



## Adroddiad Cyflawniadau 2023-24 PSPRC

**Mae PSPRC yn falch iawn o allu rhannu ei Hadroddiad Cyflawniadau blynyddol ar gyfer 2023-24.**



Nod yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at rai o'r cyflawniadau a'r llwyddiannau allweddol yn erbyn y themâu trawsbynciol a nodir yng Nghynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25 PSPRC. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Cryfhau'r cynnig addysg bellach ôl-16 mewn sectorau â blaenoriaeth trwy fwy o arbenigo i ateb y galw gan gyflogwyr ledled y Ddinas-Ranbarth.
2. Ehangu'r cynnig prentisiaethau ar lefelau uwch drwy ymateb i newidiadau i bolisi'r llywodraeth.
3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddarparu agenda cyflogadwyedd Cymru a thargedu'r unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur.
4. Hyrwyddo technoleg ddigidol fel sector 'galluogi' allweddol a chreu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu, a'r hyder i ragori yn y gweithle.
5. Datblygu sgiliau i gefnogi'r broses o drosglwyddo tuag at economi carbon isel.
6. Dylanwadu ar waith Cymwysterau Cymru a sicrhau bod cymwysterau sy'n dod i'r amlwg yn diwallu anghenion y diwydiant.
7. Adeiladu ar ymagweddau at addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol i fynd i'r afael â chanfyddiad sectorau a hyrwyddo sectorau allweddol fel dewisiadau gyrfa realistig.

Mae'r ddogfen hefyd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn ystod o heriau a chyfleoedd sector blaenoriaeth a osodwyd eto drwy'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau. Mae ymyriadau cysylltiedig wedi cefnogi twf economaidd ar draws y rhanbarth trwy gynhyrchiant gwell.

Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, llwyddodd PSPRC i gyflawni ystod o weithgareddau ar draws y sector addysg ôl-16 ac mae rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Cyflawniadau drwy'r **ddolen** ganlynol.

# Cynllun gyrfaol a chanllawiau cyflogaeth a sgiliau sy'n addas i bobl ifanc

**Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd PSPRC Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau (2022–2025) sy'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â sgiliau ar gyfer y sectorau allweddol ledled de-ddwyrain Cymru.**

Yn fwy diweddar ac wedi'i ariannu drwy ffrwd waith Gwarant Pobl Ifanc (GPI) Llywodraeth Cymru, mae PSPRC wedi cynhyrchu fersiwn ieuenctid o'r cynllun gan ddefnyddio cymhorthion iaith a gweledol symlach. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu deall a chysylltu'n well â'r cynnwys, gan ysbrydoli ac ysgogi cynulleidfa ehangach.

**Rydym yn falch iawn o rannu'r fersiynau terfynol, ac er hwylustod i chi, rydym wedi atodi dolenni a fydd yn eich cyfeirio at y tudalennau cyfatebol ar ein gwefan:**

- **Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (ccrsp.co.uk)**
- **Cardiff Capital Region Skills Partnership (ccrsp.co.uk)**

Mae PSPRC yn gwahodd sefydliadau i ddefnyddio eu rhwydweithiau a rhannu'r wybodaeth hon yn ehangach.

Mae'r fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25 yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y sectorau allweddol ar draws de-ddwyrain Cymru a'r heriau a'r cyfleoedd y maent yn eu hwynebu.

Fel gweithgaredd dilynol, ac i wella ymhellach ein Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau sy'n addas i bobl ifanc, rydym hefyd wrthi'n cynhyrchu ystod o ganllawiau gyrfaol sy'n canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd, adeiladu, creadigol a'r economi sylfaenol.

Bydd y rhain yn cael eu cynhyrchu mewn steil llyfr troi a byddant yn amlinellu'n glir y sectorau blaenoriaeth ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Bydd y dogfennau'n rhoi manylion am effaith y sector ar y rhanbarth, y swyddi sydd ar gael a map ffordd gyrfaol cyfatebol. Bydd y canllawiau'n helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol a'u paratoi ar gyfer gyrfaoedd llewyrchus.

Cyn gynted ag y bydd y canllawiau gyrfaol ar gael, byddwn yn eu rhannu gyda'n rhwydweithiau a'n rhanddeiliaid.



# Rhaglen Datblygu a Thwf Clwstwr (RhDThC) CFfG P-RC

**Mae'r Rhaglen Datblygu a Thwf Clwstwr (RhDThC) yn fenter gwerth £6.6 miliwn a ariennir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (CFfGDU).**



Ei nod yw hybu datblygiad economaidd yn Ne-ddwyrain Cymru trwy dri phrosiect: rhaglen sgiliau, partneriaethau academaidd-ddiwydiannol, a rhaglen twf busnes. Bydd y prosiectau'n rhedeg hyd at fis Mawrth 2025.

Mae'r rhaglen sgiliau, dan arweiniad Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF), wedi canolbwyntio ar y sectorau digidol, sero net a gweithgynhyrchu uwch ac mae wedi'i sbarduno gan rwydwaith o randdeiliaid gan gynnwys PWC, Addysg Bellach, a darparwyr sgiliau arbenigol.

Trwy'r RhDThC, a dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae CCF a PWC wedi bod yn ymgysylltu â chyflogwyr a chyrff allweddol y diwydiant i nodi bylchau sgiliau fel rhan o'r 'cam darganfod'.

Bydd yr ymchwil hon wedyn yn llywio datblygiad ymyriadau sgiliau targedig a fydd yn cael eu cynnig hyd at fis Mawrth 2025. Bydd mynd i'r afael â phrinder sgiliau mewn meysydd allweddol yn creu effaith ystyrlon ar draws clystyrau blaenoriaeth a rhaglenni buddsoddi ehangach, yn ogystal â sbarduno mewnfuddsoddiad ar draws P-RC.

Mae ystod o fentrau a arweinir gan gyflogwyr bellach yn cael eu datblygu a fydd yn helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau allweddol a chreu cronfeydd talent newydd ar gyfer swyddi y mae galw amdanynt.

Mae crynodeb gweithredol a fersiwn fanwl o Adroddiad Cam Darganfod RhDTC bellach ar gael **ar-lein**.

# Hyfforddiant wedi'i ariannu i wella gallu Cymraeg yn y gweithle

**Mae'r sector dysgu Cymraeg yn cael ei reoli gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sydd wedi ffurfio partneriaeth ag un ar ddeg darparwr i gyflwyno cyrsiau ar lefelau gallu amrywiol.**

Gallwch ddod o hyd i'r holl gyrsiau sydd ar gael yn eich ardal drwy'r ddolen ganlynol:
**Dod o hyd i gwrs | Dysgu Cymraeg**

Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu cyllid i sefydlu hyfforddiant Cymraeg mewn gweithleoedd drwy eu cynllun Iaith Gwaith gyda'r nod o wella gallu Cymraeg yn y gweithle.

Mae Iaith Gwaith yn darparu opsiynau hyfforddi hyblyg, amrywiol sydd wedi'u cymorthdalu'n llawn i gyflogwyr. Mae nifer o ddewisiadau amgen ar gael i ddarparu ar gyfer dysgwyr o bob lefel sgiliau, yn amrywio o ddosbarthiadau rhithwir ac wyneb-yn-wyneb dan arweiniad tiwtor a hunan-astudio ar-lein i ddosbarthiadau preswyl i ddysgwyr mwy datblygedig.



I ddysgu mwy, ewch i
**Gwasanaethau Iaith Gwaith ar y wefan Dysgu Cymraeg.**